# PAPURAU BUSNES

## Rhan 1 - Adran D

## Cwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad i'w hateb ar 17 Ebrill 2000

**R yn dynodi bod yr aelod wedi datgan buddiant**

**(Dynodir rhif gwreiddiol y cwestiwn mewn cromfachau)**

Gofyn i Ysgrifennydd y Cynulliad dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

**David Melding (Canol De Cymru);** Beth yw:
i) y cyfnod cyfartalog i fabwysiadu trefniadau o fewn awdurdodau lleol Cymru,
a;
ii) y gwahaniaeth amser rhwng y trefniadau arafaf a'r rhai cyflymaf ymysg awdurdodau lleol Cymru. (WAQ4889)

**David Melding (Canol De Cymru): Oes** yna le i wneud mwy o ddefnydd o'r sector preifat yn yr NHS. (WAQ4890)

**David Melding (Canol De Cymru): Pryd** y bydd yn gwneud penderfyniad ynghylch â'r ffaith a yw Zyban (bupropion hydrochloride SR) i fod ar gael ar yr NHS. (WAQ4890)

**David Davies (Mynwy): Sut** y mae Gwasanaethau Ambiwlans Cymru yn dod yn eu blaenau o ran gweithredu darpariaeth Cyfarwyddeb Oriau Gwaith yr Undeb Ewropeaidd a beth yw'r raddfa amser a ddisgwylir ar gyfer cydymffurfio'n llawn, lle bo'n briodol. (WAQ4892)

**David Davies (Mynwy): A oes** unrhyw gynlluniau i ymestyn sgrinio'r fron i gynnwys menywod dros 64 oed (WAQ4893)

**David Davies (Mynwy): Beth** yw'r targed ar gyfer cynyddu nifer y nyrsys cofrestredig yng Nghymru yn 2000 - 2001. (WAQ4894)

**David Davies (Mynwy): Faint** o welyau sydd ar gael ar hyn o bryd o fewn yr NHS yng Nghymru a sut y mae'r ffigwr yn cymharu â 'r ffigwr o 1997 ymlaen wedi'i dorri i lawr yn ôl y chwarter. (WAQ4895)

Gofyn i Ysgrifennydd y Cynulliad dros Addysg a Hyfforddiant

**Jocelyn Davies (De Ddwyrain Cymru);** A oes cynlluniau gan yr Ysgrifennydd i gael unrhyw gynlluniau i ddatblygu strategaeth atal camddefnyddio sylweddau i sefydliadau addysg a hyfforddiant ar ôl 16 oed, yn arbennig felly golegau addysg bellach. (WAQ4896)

Gofyn i Brif Ysgrifennydd y Cynulliad ar Ddatblygu Economaidd

**Dafydd Wigley (Caernarfon); Pa** asesiad y mae'r Ysgrifennydd wedi'i wneud am ragolygon y diwydiant dur yng Nghymru ac a fydd yn gwneud datganiad. (WAQ4897)

Gofyn i Ysgrifennydd y Cynulliad dros Lywodraeth Leol a Thai

**Ann Jones (Dyffryn Clwyd); Pa** fesurau sy'n cael eu cymryd/eu cynllunio i ddelio â'r broblem gynyddol o ddigartrefedd ymysg ieuenctid yn ardal Gogledd Cymru. (WAQ4898)